CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL

DISGRIFIAD SWYDD

Mae dwy swydd ar gael

Teitl y Swydd:	**Gweithiwr Cymorth yn y Cartref**
Rhif y Swydd:	**ADU7356**
Cod Gwerthuso Swyddi:	**ASC024**
Gwasanaeth:	**Gwasanaethau Oedolion**
Lleoliad/Canolfan Waith:	**Rhaeadr**

mae hon yn swydd gweithiwr hyblyg ac felly mae'r Cyngor yn cynnig cyfle i weithio'n ystwyth, gan gynnwys gweithio o adref

Graddfa:	**Graddfa 5** **Pwynt 7 i Bwynt 9** **£27,274 i £28,153 y flwyddyn ar gyfartaledd** **£14.13 i £14.59 yr awr**
Oriau'r contract:	**25 awr, Parhaol**
Atebol i:	Uwch Weithiwr Cymorth yn y Cartref
Cyfrifoldeb dros:	Neb

Crynodeb

Am y rôl:

Mae'r Gweithiwr Cymorth Cartref yn cefnogi pobl ledled Canolbarth Powys i aros yn annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r rôl yn cynnwys darparu gofal personol, cyswllt lles rheolaidd, ymateb i alwadau brys, nodi anghenion sy'n newid, lleihau ynysu cymdeithasol a chysylltu pobl â gwasanaethau cymunedol. Mae gweithwyr yn gweithio â chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, yn cadw cofnodion cywir ac yn cymryd rhan mewn rota ar alwad. Mae hyblygrwydd, cyfathrebu da, gweithio annibynnol, teithio ac oriau anghymdeithasol yn ofynion hanfodol.

Amdanoch chi:

Angerdd am gefnogi pobl i aros yn annibynnol, yn ddiogel ac yn gysylltiedig yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain.
Sgiliau cyfathrebu da a ffordd hygyrch, chymwynasgar wrth weithio gydag unigolion, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm, gan gydnabod ac adrodd risgiau yn briodol.
Hyblyg a dibynadwy, gyda pharodrwydd i weithio gyda'r nos, penwythnosau, gwyliau banc a threfniadau ar alwad.
Ymrwymiad i ddarparu gofal personol ac ymateb yn sensitif i anghenion unigol.
Angerdd dros leihau ynysu cymdeithasol, annog cyfranogiad cymunedol a helpu pobl i gael mynediad at gymorth a gweithgareddau lleol.

Eich dyletswyddau:

Darparu gofal personol a chymorth ymarferol i helpu pobl i aros yn ddiogel ac yn annibynnol gartref.
Cynnal gwiriadau lles rheolaidd a chysylltu ag unigolion sy'n derbyn cymorth.
Ymateb i alwadau brys a darparu cymorth priodol pan fo angen.
Adnabod ac adrodd am newidiadau yn anghenion, amgylchiadau neu les unigolyn.
Helpu pobl i leihau ynysu cymdeithasol a chael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau cymunedol.
Gweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, cadw cofnodion cywir a chymryd rhan mewn trefniadau ar alwad.

Manylion cyswllt:
Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y rôl, cysylltwch â:
Nikki Hughes - nikki.hughes@powys.gov.uk, Dirprwy Reolwr Bodlondeb a Chymorth yn y Cartref.

Bydd eich cyfrifoldebau'n cynnwys:

- Bydd angen i ddeiliad y swydd weithio o gartref a bydd angen gallu a bod yn fodlon gweithio gyda'r hwyr, ar y penwythnos ac ar Wyliau Banc, yn ôl y rota. Hefyd bydd angen trwydded yrru gyfredol ar ddeiliad y swydd a bydd defnydd o gerbyd yn hanfodol i'r swydd.
- Bod yn aelod o'r tîm sy'n darparu Cynllun Cymorth yn y Cartref yn Rhaeadr Gwy.
- Cynghori, cefnogi a gofalu am y bobl hŷn a'r gofalwyr sy'n cael eu atgyfeirio at y cynllun.
- Cysylltu'n rheolaidd gyda defnyddwyr y gwasanaeth yn ddibynnol ar anghenion a gofynion unigol, a monitro newidiadau o safbwynt angen.
- Cymryd rhan yn y rota ar-alwad a chynnig gwasanaeth brys ar-alwad o gartref, ymweld ag a chynorthwyo defnyddwyr y gwasanaeth pan fo angen.
- Darparu gofal personol i ddefnyddwyr y gwasanaeth drwy gydlynu gyda Gwasanaeth Gofal yn y Cartref Sir Faesyfed.
- Darparu gwasanaeth warden i denantiaid Gwasanaethau Tai sy'n byw mewn llety gwarchod dynodedig pan fo galw.

- Sicrhau fod defnyddwyr y gwasanaeth yn ymwybodol o'r holl wasanaethau sydd ar gael iddynt, a hysbysu darparwyr gwasanaethau eraill fel sy'n briodol ynghylch anghenion wrth iddynt newid.

- Cadw gwybodaeth am anghenion defnyddwyr a'u gofalwyr yn gyfredol ac yn barhaus a chadw cofnod o gysylltiad gyda'r rhai sy'n gofrestredig gyda'r cynllun.

- Adnabod anghenion cymdeithasol defnyddwyr y cynllun, a mynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol trwy drefnu gweithgareddau cymdeithasol a/neu gysylltu defnyddwyr presennol â gweithgareddau lleol sy'n bodoli eisoes.

- Ceisio datblygu rhwydweithiau lleol i ddefnyddwyr y cynllun er mwyn ymestyn eu ffynonellau gofal a chymorth.

- Cymryd rhan mewn hyfforddiant fel bo angen.

Gofynion Gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

Mae angen Gwiriad Manylach y DBS i'r swydd hon. Mae'r swydd hon yn cael ei chyfri'n weithgaredd a reoleiddir dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, a bydd yn destun gwirio rhestr o'r bobl hynny sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gydag oedolion hyglwyf.
Oherwydd natur y gwaith dan sylw, mae'r swydd rydych yn ymgeisio amdani o dan amodau Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (fel y'i diwygiwyd yn 2013) - Efallai y bydd angen gwiriad Diogelwch Personél Sylfaenol (BPSS) ar gyfer y swydd hon.

Gofynion Iechyd a Diogelwch

Cydweithio gyda'r cyflogwr a dilyn cyngor a chyfarwyddiadau iechyd a diogelwch.

Datganiad Cydraddoldebau:

Glynu wrth egwyddorion ac arferion cyfleoedd cyfartal yn unol â Pholisi Cyfleoedd Cyfartal y Cyngor.

Gofynion y Gymraeg
Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

SYLWCH;

Er y manylion sydd yn y swydd ddisgrifiad, bydd gofyn i'r sawl sydd yn y swydd wneud unrhyw waith ar gais y Rheolwr o dro i dro, hyd at neu ar lefel sy'n cyfateb â 'Phrif Gyfrifoldebau'r Swydd.'

Gofynnir i'r holl ymgeiswyr ddarllen gofynion y swydd yn ofalus. Mae'r Cyngor yn croesawu'ch cais os ydych chi'n credu eich bod yn diwallu pob un o'r meini prawf hanfodol yn y fanyleb person. Er mwyn inni ystyried ceisiadau ar gyfer swyddi rhoi gofal, mae'n hanfodol eich bod yn gallu darparu gofal personol agos i'n preswylwyr gofal.

Y PERSON

Ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person cywir i'r rôl? Os felly, dangoswch eich bod chi'n bodloni'r meini prawf canlyniol yn eich cais.

Profiad

Dymunol

- Profiad o weithio gyda phobl hŷn mewn amgylchfyd gofal
- Profiad o ddarparu gofal personol mewn unrhyw leoliad

Gwybodaeth

Dymunol

- Deall anghenion pobl o ran aros yn annibynnol yn eu cartref a'u cymuned eu hunan.

Coffrestriadau, Cymwysterau a Hyfforddiant

Hanfodol

- Ymrwymiad i wneud unrhyw gymhwyster sy'n berthnasol i'r swydd hon fel y diffinnir yn Fframwaith Cymwysterau Pobl a Lles Powys.

Dymunol

- Safon addysg gyffredinol dda
- NVQ2 mewn Gofal
- Hyfforddiant Codi a Chario
- Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch

Rhinweddau Personal

Hanfodol

- Natur ddymunol a chymwynasgar wrth ddelio gyda'r cyhoedd
- Hyblygrwydd
- Ymrwymiad i ddatblygu arferion a gwasanaethau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb

Sgiliau

Hanfodol

- Sgiliau cyfathrebu da
- Gallu gweithio fel aelod o dîm
- Gallu gweithio'n annibynnol, gan adrodd unrhyw risgiau a nodir i'r rheolwr atebol

Gofynion Eraill

Hanfodol

- Gallu corfforol i gynnig gofal personol, gan gynnwys codi a chario

- Gallu teithio ar hyd a lled y Sir ac ymweld â defnyddwyr y gwasanaeth yn eu cartrefi a'u cymunedau
- Yn gallu ac yn barod i weithio oriau hyblyg ac anghymdeithasol
- Deall yn llwyr pwysigrwydd cyfrinachedd

Dymunol

- Gallu siarad Cymraeg

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

Gall y swydd hon ofyn llawer gennych yn gorfforol ac yn feddyliol, bydd rhaid i chi roi gofal a chymorth personol i'r trigolion hynny sydd ag anghenion gofal cymdeithasol cymwys.

Rheolwr recriwtio: Alvine Stuart
Gorffennaf 2014

Ein gwerthoedd:

Proffesiynol
Rydym yn ymddwyn gyda phroffesiynoldeb ac integriti ym mha bynnag rôl yr ydym yn ei chwarae yn y cyngor

Cadarnhaol
Mae ein hagwedd yn gadarnhaol ym mhopeth a wnawn

Blaengar
Mae ein hymagwedd yn rhagweithiol a chyfrifol wrth gynllunio am y dyfodol

Agored
Rydym yn hysbysu'n gilydd gan rannu gwybodaeth ac ymddwyn â gonestrwydd ac integriti

Cydweithiol
Rydym ni'n gweithio'n adeiladol ac â pharodrwydd ar fentrau ar y cyd

Sut i ymgeisio

Bydd angen i chi gwblhau'r cais ar-lein, mae'n syml, dilynwch y broses gam wrth gam.

Gair i gall:

- Darllenwch y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person yn ofalus a'r dystiolaeth eich bod chi'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol yn eich datganiad cefnogi.
- Gwerthwch eich hun a rhowch enghreifftiau ble y bo'n bosibl

- Rhestrwch y cymwysterau sydd gennych sy'n berthnasol i'r swydd, yn ôl y manylion ym manyleb y person.
- Sicrhewch fod un o'ch canolwyr o'ch cyflogwr mwyaf diweddar neu os mai hon yw eich swydd gyntaf beth am ofyn i athro ysgol neu diwtor, ond sicrhewch eich bod yn adnabod y canolwr ar lefel broffesiynol.
- Byddwch yn onest a dywedwch wrthym am unrhyw fylchau yn hanes eich cyflogaeth
- Cwblhewch y cais yn gyflawn

Camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 20/11/2026
Ar ôl cyflwyno byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi ein bod ni wedi derbyn eich cais.
Byddwn yn creu rhestr fer o'r ceisiadau ar 24/11/2026. Byddwn yn anfon e-bost atoch os ydych chi'n llwyddiannus ai peidio. Felly, cadwch lygad ar eich mewnflwch!

Bydd y cyfweliadau'n digwydd ar 27/11/2026

Dymunwn bob hwyl i chi gyda'ch cais.